# Construction Building Services and Engineering FAQs

# Cwestiynau Cyffredin Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu

Version/Fersiwn 01
Last modified/ wedi'i ddiweddaru 22-September-2022

The City and Guilds of London Institute.
Incorporated by Royal Charter. Founded 1878.
Registered Charity in England and Wales 312832 and in Scotland SC039576.
EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited)
Registered in England and Wales number 02700780

| Key | Question | Answer | Cwestiwn | Ateb |
|---|---|---|---|---|
| **Foundation** | For the Foundation qualification, can you mix the building services trade with a construction trade? | There are 6 common units and then 2 selected trade areas. There may be options for centres to run the common units to learners in the same classroom. | Ar gyfer y cymhwyster Sylfaen, allwch chi gymysgu crefft gwasanaethau adeiladu â chrefft adeiladu? | Mae 6 uned gyffredin ac yna 2 faes crefft dethol. Efallai bydd opsiynau i ganolfannau redeg yr unedau cyffredin i ddysgwyr yn yr un ystafell ddosbarth. |
| **Foundation** | Does the Foundation need to be completed before the Progression? | The Foundation is designed to be sat and completed prior to undertaking the Progression qualification. Completing the qualifications in the designed sequence, Foundation then Progression allows for a more efficient apprenticeship journey for the learner, as there will be applied exemptions from certain assessments, which can be found here: https://www.skillsforwales.wales/wp-content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf | A oes angen cwblhau'r Sylfaen cyn y Dilyniant? | Mae'r cymhwyster Sylfaen wedi'i gynllunio fel bod rhaid i ddysgwyr ei astudio a'i gwblhau cyn y gallent ymgymryd â'r cymhwyster Dilyniant. Wrth gwblhau'r cymwysterau yn y drefn sydd wedi'i chynllunio, mae'r Sylfaen ac yna'r Dilyniant yn caniatáu taith brentisiaeth fwy effeithlon i'r dysgwr, oherwydd bydd eithriadau cymhwysol ar gyfer rhai asesiadau penodol, sydd i'w gweld yma: https://www.skillsforwales.wales/wp-content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf |
| **Foundation** | What would happen if a centre is not approved for the Foundation qualification? Is there an appeals process? | There isn't an appeals process if centre and/or qualification approval is denied. Centres will receive a copy of the EQA report which will detail why approval has not been granted and outline what actions the centre needs to take before submitting another application. Centres are welcome to submit another application once those actions have been completed. | Beth fyddai'n digwydd pe na bai canolfan yn cael ei chymeradwyo ar gyfer y cymhwyster Sylfaen? A oes proses apelio? | Nid oes proses apelio os gwrthodir cymeradwyaeth canolfan a / neu gymhwyster. Bydd canolfannau'n cael copi o'r adroddiad Sicrhau Ansawdd Allanol a fydd yn nodi pam nad oes cymeradwyaeth wedi cael ei rhoi ac yn amlinellu pa gamau y mae angen i'r ganolfan eu cymryd cyn cyflwyno cais arall. Mae croeso i ganolfannau gyflwyno cais arall ar ôl i'r camau hynny gael eu cwblhau. |
| **Foundation** | Will an IQA for the Foundation qualification need to hold a valid IQA award? | Information on the IQA requirements can be found in the Qualification Handbook. These are located on the under the 'Centre/Qualification documents' tab for each qualification. | A fydd angen i swyddog sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster Sylfaen feddu ar ddyfarniad sicrhau ansawdd mewnol dilys? | Mae gwybodaeth am y gofynion sicrhau ansawdd mewnol ar gael yn y Llawlyfr Cymwysterau. Mae'r rhain ar gael o dan y tab 'Dogfennau'r Ganolfan/Cymwysterau' ar gyfer pob cymhwyster. |
| **Core** | How does the Core in Construction and Building Services Engineering (Level 2) qualification fit in? Is it just for learners without employers? | Its primary purpose is to be taken part-time by learners who have secured a Construction or BSE Apprenticeship and not previously completed the Foundation in Construction and Building Services Engineering qualification. This qualification will enable learners to go on to study a range of other Level 2 or 3 Construction and Building Services Engineering courses relevant to their trade interest area. | Beth yw pwrpas cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2)? Ai dim ond i ddysgwyr heb gyflogwyr y mae hyn? | Mae'r cymhwyster wedi'i anelu at ddysgwyr rhan-amser sydd wedi ennill Prentisiaeth Adeiladu neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu, ac nad ydynt wedi cwblhau'r cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu o'r blaen. Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i fynd ymlaen i astudio amrywiaeth o gyrsiau Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 2 neu 3 eraill sy'n berthnasol i'r grefft sydd o ddiddordeb iddynt. |
| **Core** | If candidates have industrial experience, can they skip the Core? | Please refer to the assessment exemptions document here: https://www.skillsforwales.wales/wp- | Os oes gan ymgeiswyr brofiad diwydiannol, gallen nhw hepgor y cymhwyster Craidd? | Cyfeiriwch at y ddogfen eithriadau asesu yma: https://www.skillsforwales.wales/wp- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf | | content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf |
| **Progression** | How do the Progression qualifications link to Level 3? | Please refer to the assessment exemptions document here: https://www.skillsforwales.wales/wp-content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf | Sut mae'r cymwysterau Dilyniant yn cysylltu â Lefel 3? | Cyfeiriwch at y ddogfen eithriadau asesu yma: https://www.skillsforwales.wales/wp-content/uploads/2021/06/Apprenticeship-assessment-exemptions.pdf |
| **Progression** | Will there be online exams for each topic of the Progression qualification? | At progression there will be a specific online multiple-choice examination for each trade area. | A fydd arholiadau ar-lein ar gyfer pob pwnc yn y cymhwyster Dilyniant? | Wrth ddilyn llwybr cymhwyster dilyniant, bydd arholiad aml-ddewis penodol ar-lein ar gyfer pob maes crefft. |
| **Progression** | How can the removal of electrical science/principles from the Level 2 Progression qualification on the Electrotechnical route be justified? | The Level 2 Progression qualifications are not competence-based qualifications, and an individual does not need to complete a Progression qualification as part of the journey to occupational competence. For an individual to be considered occupationally competent they would need to complete the appropriate framework which will include the Level 3 Building Services Engineering - Electrotechnical qualification. The Level 3 qualification will require a learner/apprentice to cover all mandatory occupational standards and content. It is for this reason that the Progression qualifications only need to cover aspects of the knowledge and skills an individual will need to be competent and so consideration needs to be given to which content and skills are most appropriate to include in the qualification to ensure that it is a manageable and engaging 1 year programme of learning/qualification. | Sut mae cyfiawnhau cael gwared ar wyddoniaeth/egwyddorion trydanol o'r cymhwyster Dilyniant Lefel 2 ar y llwybr Electrodechnegol? | Nid yw cymwysterau Dilyniant Lefel 2 yn gymwysterau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, ac nid oes angen i unigolyn gwblhau cymhwyster Dilyniant fel rhan o'r daith tuag at gymhwysedd galwedigaethol. Er mwyn i unigolyn gael ei ystyried yn gymwys yn alwedigaethol, byddai angen iddo/iddi gwblhau'r fframwaith priodol a fydd yn cynnwys y cymhwyster Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu Lefel 3 - Electrodechnegol. Bydd y cymhwyster Lefel 3 yn gofyn i ddysgwr/prentis ymdrin â'r holl safonau galwedigaethol a chynnwys gorfodol. Am y rheswm hwn, dim ond agweddau ar y wybodaeth a'r sgiliau y bydd angen i unigolyn fod yn gymwys ynddynt sy'n cael sylw yn y cymwysterau Dilyniant, felly mae angen ystyried pa gynnwys a sgiliau sydd fwyaf priodol i'w cynnwys yn y cymhwyster er mwyn sicrhau ei fod yn rhaglen ddysgu/cymhwyster blwyddyn sy'n bosibl ac yn ddifyr. |
| **Level 3** | What is the timeline for the Level 3? What needs to be covered in year 1, 2 and 3? | The content of the qualification is in the handbook, it all depends on how the centres wish to deliver the content, for example: block release, day release, 6 hour or 8-hour days. There is no set delivery model, but we recommend centres look at the specification of the assessments and deliver those prior to Test 1. Durations of apprenticeships are agreed between the centre, employer and apprentice and this is supported with initial assessments, interview and recognition of learner's prior achievements and experience. | Beth yw'r amserlen ar gyfer Lefel 3? Beth sydd angen sylw ym mlwyddyn 1, 2 a 3? | Mae cynnwys y cymhwyster ar gael yn y llawlyfr. Mae'r cyfan yn dibynnu sut mae canolfannau'n dymuno darparu'r cynnwys, er enghraifft: bloc astudio, diwrnod astudio, diwrnod 6 awr neu ddiwrnod 8 awr. Nid oes model darparu penodol, ond rydym yn argymell bod canolfannau'n edrych ar fanyleb yr asesiadau ac yn darparu'r rheini cyn Prawf 1. Mae'r ganolfan, y cyflogwr a'r prentis yn cytuno ar hyd y prentisiaethau, ac mae hyn yn cael ei ategu gan asesiadau cychwynnol, cyfweliad a chydnabyddiaeth o gyflawniadau a phrofiad blaenorol y dysgwr. |
| **Level 3** | When are the RPL mapping documents going to be released? | The RPL documents are now complete and can be accessed on the Skills for Wales website under the 'Centre/Qualification documents' tab for each Level 3 qualification. | Pryd fydd y dogfennau mapio RPL yn cael eu rhyddhau? | Mae'r dogfennau RPL bellach wedi'u cwblhau a gellir eu gweld ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y tab 'Dogfennau'r Canolfannau/Cymwysterau' ar gyfer pob cymhwyster Lefel 3. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Level 3** | What is the assessor's role on site? | The assessor will assess the end project of the apprenticeship. | Beth yw rôl yr asesydd ar y safle? | Bydd yr asesydd yn asesu prosiect terfynol y brentisiaeth. |
| **Level 3** | Who ultimately signs off the learner as competent? | There are numerous occasions where progression of the learner is acknowledged, such as employer sign-off and Test 1. However, ultimately the assessor, IQA and then EQA will make those assessment decisions as with current qualifications. | Yn y pen draw, pwy sy'n llofnodi bod y dysgwr yn gymwys? | Mae sawl achlysur lle mae cynnydd y dysgwr yn cael ei gydnabod, fel cadarnhad y cyflogwr a Phrawf 1. Fodd bynnag, yn y pen draw yr asesydd, y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol ac yna'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol fydd yn gwneud y penderfyniadau asesu hynny yn yr un modd â'r cymwysterau presennol. |
| **Level 3** | What happens if the learner can't get the relevant evidence to complete the full Level 3 qualification, do they get a Level 2 qualification? | There is no Level 2 apprenticeship, if a learner cannot gain the evidence this should be identified at sign-up and a more suitable route identified for the learner. | Beth sy'n digwydd os nad yw'r dysgwr yn gallu cael y dystiolaeth berthnasol i gwblhau'r cymhwyster Lefel 3 llawn, a yw'n cael cymhwyster Lefel 2? | Nid oes prentisiaeth Lefel 2, os nad yw dysgwr yn gallu cael y dystiolaeth, dylid nodi hyn wrth gofrestru a dewis llwybr mwy addas ar gyfer y dysgwr. |
| **Level 3** | What will happen to any mature learners who are already on programme? | This doesn't affect mature learners; this is for 16–19-year-old learners and apprentices. | Beth fydd yn digwydd i unrhyw ddysgwyr aeddfed sydd eisoes ar y rhaglen? | Nid yw hyn yn effeithio ar ddysgwyr aeddfed; mae hyn ar gyfer dysgwyr a phrentisiaid 16–19 oed. |
| **Level 3** | What happens if a learner decides to change employers part way through? | In terms of the qualification and the work there is no change they will just move over to the new employer. | Beth sy'n digwydd os bydd dysgwr yn penderfynu newid cyflogwr ran o'r ffordd drwy eu prentisiaeth? | O ran y cymhwyster a'r gwaith, does dim newid – dim ond symud ymlaen i'r cyflogwr newydd. |
| **Level 3** | Is the AM2 part of the apprenticeship route | The AM2 is likely to be part of an apprenticeship programme but is not part of the qualification. | A yw'r AM2 yn rhan o'r llwybr prentisiaeth? | Mae'r AM2 yn debygol o fod yn rhan o raglen brentisiaeth ond nid yw'n rhan o'r cymhwyster. |
| **Level 3** | There is a lot of coordination required by the providers when organising assessments. This could have a financial burden on the Centres, has this been considered? | Planning and coordination of current on-site assessments take a considerable amount of time and cost. The new model will be very similar to the current model regarding coordination and costs that will occur. | Mae angen llawer o gydlynu ar y darparwyr wrth drefnu asesiadau. Gallai hyn roi baich ariannol ar y Canolfannau. A yw hyn wedi cael ei ystyried? | Mae cynllunio a chydlynu asesiadau cyfredol ar y safle yn cymryd cryn dipyn o amser a chost. Bydd y model newydd yn debyg iawn i'r model presennol o ran cydlynu a chostau. |
| **Level 3** | For Level 3 Apprenticeships is there an opportunity to step-off and re-join at a later date? What will happen if they don't come back and would like to go into Construction? | There will be 2- and 3-year apprenticeships with a Level 3 outcome. An apprentice who leaves part way through their course can re-join at a later date as they can at present. Depending on the time that will have lapsed the apprentice would be interviewed and guidance provided to support the individual. | Ar gyfer Prentisiaethau Lefel 3 - a oes cyfle i adael ac ailymuno nes ymlaen? Beth fydd yn digwydd os na fyddan nhw'n dod yn ôl ac yr hoffen nhw fynd i'r maes Adeiladu? | Bydd prentisiaethau 2 a 3 blynedd gyda chanlyniad Lefel 3. Gall prentis sy'n gadael rhan o'i ffordd drwy ei gwrs ailymuno yn nes ymlaen fel y gall ar hyn o bryd. Gan ddibynnu ar yr amser a fydd wedi mynd heibio, byddai'r prentis yn cael ei gyfweld a byddai canllawiau'n cael eu darparu i gefnogi'r unigolyn. |
| **Level 3** | What is the difference between Test 1 and Test 2, they both include Level 2 and Level 3 content? | Test 1 is Level 2 content and Test 2 is Level 3 content. | Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Prawf 1 a Phrawf 2, mae'r ddau yn cynnwys Lefel 2 a Lefel 3? | Mae Prawf 1 yn seiliedig ar gynnwys Lefel 2 ac mae Prawf 2 yn seiliedig ar gynnwys Lefel 3. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Level 3** | For the College Training Programme - what will EQAs look for in the college training? What sort of records will centres need to keep? Attendance/Timetables/Schemes of work/Examples of training activities etc. | Centres will be expected to have Schemes of Work, Lesson plans etc to cover the requirements in the Assessment pack and QM to enable the learner to carry out the trade specific activities which is no different to what is currently delivered. | Ar gyfer Rhaglen Hyfforddiant y Coleg – beth fydd Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn chwilio amdano yn yr hyfforddiant? Pa fath o gofnodion y bydd angen i ganolfannau eu cadw? Presenoldeb/Amserlenni/Cynlluniau gwaith/Enghreifftiau o weithgareddau hyfforddi ayb. | Bydd disgwyl i ganolfannau gael Cynlluniau Gwaith, Cynlluniau gwersi ayyb i ymdrin â'r gofynion yn y pecyn Asesu a'r Rheolwr Ansawdd er mwyn galluogi'r dysgwr i gyflawni'r gweithgareddau penodol i grefft sydd ddim yn wahanol i'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd. |
| **Level 3** | The Employer Confirmation Guide and supporting portfolio of evidence -What is the awarding bodies' vision of what should be there, given that the Qualifications Wales review was particularly hard on portfolios of evidence? | The wording of the Employer Confirmation Guide has been updated. The Employer Confirmation Guide is a document for the employer to document that the learner has completed the activities detailed while working for the employer. | Canllaw Cadarnhau y Cyflogwr a'r portffolio tystiolaeth ategol – Beth yw gweledigaeth y corff dyfarnu o'r hyn a ddylai fod yno, o ystyried bod adolygiad Cymwysterau Cymru yn arbennig o llym ar bortffolios tystiolaeth? | Mae geiriad y Canllaw Cadarnhau Cyflogwyr wedi cael ei ddiweddaru. Mae Canllaw Cadarnhau y Cyflogwr yn ddogfen i'r cyflogwr gofnodi bod y dysgwr wedi cwblhau'r gweithgareddau y manylir arnynt wrth weithio i'r cyflogwr. |
| **Level 3** | The Level 3 Project Assessment - the content is clear, but what are you expecting in terms of what is and what isn't covered by direct observation? Run through potential timings - where does this sit in the learner journey? | This information is detailed in the Assessment pack for Level 3 project assignment which can be accessed on the Skills for Wales website under the 'Live assessment materials' tab for each Level 3 qualification. | Asesu Prosiect Lefel 3 – mae'r cynnwys yn glir, ond beth yw eich disgwyliadau o ran beth sydd a beth sydd ddim yn cael sylw mewn arsylwad uniongyrchol? Ewch drwy'r amseroedd posibl – sut byddai'r amseriad yn gweddu i daith y dysgwr? | Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi yn yr asesiad prosiect yn y pecyn Asesu Lefel 3 sydd ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y tab 'Deunyddiau asesu byw' ar gyfer pob cymhwyster Lefel 3. |
| **Level 3** | Professional Discussion - how will it work? Face to face? What is your capacity for this given the possibility of end loaded assessments etc? | Centres will request the Professional Discussion after confirming preliminary activities have been completed to the relevant Awarding Body. The Awarding Organisation will then arrange dates for the Professional Discussion with the External Assessors. | Trafodaeth Broffesiynol – beth fydd y trefniadau? Wyneb yn wyneb? Beth yw eich gallu ar gyfer hyn o ystyried y posibilrwydd o orfod cynnal asesiadau ar ddiwedd y cymhwyster ac ati? | Bydd canolfannau'n gofyn am y Drafodaeth Broffesiynol ar ôl cadarnhau i'r Corff Dyfarnu perthnasol fod gweithgareddau rhagarweiniol wedi eu cwblhau. Yna bydd y Corff Dyfarnu'n trefnu dyddiadau ar gyfer y Drafodaeth Broffesiynol gyda'r Aseswyr Allanol. |
| **Level 3** | Experienced Workers - what would their journey look like? Do they need to attend college, other than to sit the on-screen tests? | There is no difference for the experienced worker. | Gweithwyr Profiadol – sut beth fyddai eu taith? Oes angen iddynt fynd i'r coleg, ar wahân i sefyll y profion ar y sgrin? | Does dim gwahaniaeth i'r gweithiwr profiadol. |
| **Level 3** | Where can you get the occupational competency statements for specific courses and trades? | These are in the Employer Confirmation Guides on the Skills for Wales website under the relevant trades which can be accessed on the Skills for Wales website under the 'Centre/Qualification documents' tab for each Level 3 qualification. | Ble allwch chi gael y datganiadau cymhwysedd galwedigaethol ar gyfer cyrsiau a chrefftau penodol? | Mae'r rhain yn y Canllawiau Cadarnhad Cyflogwr ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y crefft perthnasol ar y tab 'Dogfennau'r Canolfannau/Cymwysterau' ar gyfer pob cymhwyster Lefel 3. |
| **Level 3** | What is in place for potential learners who are time served, suitable for Level 3 direct entry, but has not completed Level 2? | Learners can enter the apprenticeship directly and will complete the Core qualification and the Level 3 Qualification. There are no longer any Level 2 apprenticeships. | Beth sydd ar waith ar gyfer darpar ddysgwyr gwybodus, sy'n gymwys i ddilyn cymhwyster Lefel 3, ond sydd heb gwblhau Lefel 2? | Gall dysgwyr ddilyn y brentisiaeth yn uniongyrchol a byddant yn cwblhau'r cymhwyster Craidd a'r Cymhwyster Lefel 3. Nid oes unrhyw brentisiaethau Lefel 2 erbyn hyn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Level 3** | Our current apprentices only attend college 1 day a week, with this new qualification is there a set number of days required for them to undertake the different stages, for example Foundation or Progression stages? | If a learner starts at 16, they will do the Core qualification (same as Foundation but a single trade) they won't do the Progression as such just the Level 3 apprenticeship qualification. If a learner has already done the Foundation and/or Progression, it will reduce the length or duration of the overall apprenticeship. | Dim ond am 1 diwrnod yr wythnos y mae ein prentisiaid presennol yn mynd i'r coleg. Gyda'r cymhwyster newydd hwn, a oes angen nifer penodol o ddyddiau iddynt ymgymryd â'r gwahanol gamau, er enghraifft camau Sylfaen neu Ddilyniant? | Os bydd dysgwr yn dechrau yn 16 oed, bydd yn gwneud y cymhwyster Craidd (sy'n debyg i'r Sylfaen ond gydag un grefft yn unig). Ni fydd y dysgwr yn gwneud y cymhwyster Dilyniant, dim ond y cymhwyster prentisiaeth Lefel 3 yn unig. Os yw dysgwr eisoes wedi gwneud y cymhwyster Sylfaen a/neu Dilyniant, bydd yn lleihau hyd neu gyfnod y brentisiaeth yn gyffredinol. |
| **Level 3** | Does the Employer Confirmation Guide have to be completed before the on-site assessment can take place? | It doesn't have to be, but we would recommend this as it follows naturally when the learner has had the experience on-site carrying out the range of activities, it's at that point the Employer Confirmation Guide is signed-off and you as a centre are comfortable the learner has had the appropriate experience to now undertake their project which is the assessment for this qualification. | Oes rhaid cwblhau'r Canllaw Cadarnhau y Cyflogwyr cyn y gellir cynnal yr asesiad ar y safle? | Does dim rhaid, ond byddem yn argymell hyn gan ei fod yn dilyn yn naturiol pan fydd y dysgwr wedi cael y profiad i gyflawni'r ystod o weithgareddau ar y safle. Ar y pwynt hwn, bydd y Canllaw Cadarnhad y Cyflogwr yn cael ei gymeradwyo a byddwch chi fel canolfan yn hyderus bod y dysgwr wedi cael y profiad priodol i ymgymryd â'i brosiect, sef yr asesiad ar gyfer y cymhwyster hwn. |
| **Level 3** | Is there any mention of the AM2 in the framework? | AM2 still required for JIB certification. | A oes unrhyw sôn am AM2 yn y fframwaith? | Mae angen AM2 o hyd ar gyfer ardystiad JIB. |
| **Level 3** | What level do learners straight from school move on to? | They will sign on an apprenticeship, the apprenticeship contains the Level 3 and the Core. The Core is the same as the Foundation but with only 1 trade area which is the one, they are employed in. The Level 3 qualification then sits alone and includes content mirroring the Progression plus additional. | I ba lefel mae dysgwyr sydd syth o'r ysgol yn symud i? | Byddant yn cofrestru ar brentisiaeth, mae'r brentisiaeth yn cynnwys y cymhwyster Lefel 3 a'r Craidd. Mae'r Craidd yr un fath â'r Sylfaen ond gyda dim ond 1 maes crefft, sef yr un maen nhw'n cael eu cyflogi ynddo. Mae'r cymhwyster Lefel 3 yn gymwyster ynddo'i hun ac mae ei gynnwys yn cyfateb i'r hyn a geir fel rhan o'r cymwyster Dilyniant (gan gynnwys elfennau ychwanegol). |
| **Level 3** | Due to the practical project being done on-site are training providers required to complete practical formative training throughout the year? | Yes, training and formative assessment will be required to continue to take place through the academic year to monitor learner progress. | Oherwydd y prosiect ymarferol sy'n cael ei wneud ar y safle, a oes angen i ddarparwyr hyfforddiant gwblhau hyfforddiant ffurfiannol ymarferol drwy gydol y flwyddyn? | Oes, bydd angen parhau i gwblhau hyfforddiant ac asesiadau ffurfiannol drwy gydol y flwyddyn academaidd er mwyn monitro cynnydd dysgwyr. |
| **Level 3** | Will awarding body assessors be completing professional discussions with apprentice's face to face or virtual? | The default is for the professional discussions to take place virtually to minimise impact on the apprentice and their working environment. However, there is the option of face to face should the apprentice request it. | A fydd aseswyr cyrff dyfarnu yn cynnal trafodaethau proffesiynol â phrentis wyneb yn wyneb neu ar-lein? | Y dewis diofyn yw bod y trafodaethau proffesiynol yn digwydd ar-lein er mwyn lleihau'r effaith ar y prentis a'i amgylchedd gwaith. Fodd bynnag, mae opsiwn wyneb yn wyneb os bydd y prentis yn gofyn amdano. |
| **BSE** | As employers will be signing proficiency of electrical aspects, what qualifications would we be expecting employers to have? | We do not ask assessors to specifically check this, in order to operate competently in the sector, employer organisations would naturally have the relevant competencies for their trade in the work they are undertaking. If there are any issues arising around | Gan y bydd cyflogwyr yn arwyddo hyfedredd mewn agweddau trydanol, pa gymwysterau y byddem yn disgwyl i gyflogwyr eu cael? | Nid ydym yn gofyn i aseswyr wirio hyn yn benodol. Yn naturiol, er mwyn gweithredu'n gymwys yn y sector byddai gan sefydliadau cyflogwyr y cymwyseddau perthnasol sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Os oes |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | this, then please flag accordingly as we all need to ensure the apprentice is working safely and to the correct level. | | unrhyw faterion yn codi ynghylch hyn, tynnwch sylw at hynny gan fod angen i bob un ohonom sicrhau bod y prentis yn gweithio'n ddiogel ac i'r lefel gywir. |
| **BSE** | Can you clarify what additional criteria is needed as part of the additional trade requirements on page 23 of the assessment pack. Is there a specific criterion this refers to in the qualification manual? | You can select the designated number of learning outcomes as specified. For example, 4 performance learning outcomes for Electrotechnical across the 7 units given. | Allwch chi egluro pa feini prawf ychwanegol sydd eu hangen fel rhan o'r gofynion crefft ychwanegol ar dudalen 23 yn y pecyn asesu? A oes maen prawf penodol y mae hyn yn cyfeirio ato yn y llawlyfr cymwysterau? | Gallwch ddewis y nifer dynodedig o ddeilliannau dysgu fel y nodir. Er enghraifft, 4 deilliant dysgu perfformiad ar gyfer Electrodechnegol ar draws y 7 uned a ddarperir. |
| **BSE** | In the assessment pack, are learners expected to complete 7a and 7b as mandatory and 2 of the remaining - 7c to 7f? | For Plumbing and Heating: 7a and/or 7b, and the additional one to make up to 4. | Yn y pecyn asesu, ydy hi'n orfodol i ddysgwyr gwblhau unedau 7a a 7b yn ogystal â 2 o'r rhai sy'n weddill - 7c hyd at 7f? | Ar gyfer Plymio a Gwresogi: 7a a/neu 7b, a'r un ychwanegol i'w wneud yn 4. |
| **BSE** | It is our understanding that the practical task (60% of the total mark) must be carried out in the workplace and cannot be simulated in our training centre | This is correct as there is no simulation permitted. | Ein dealltwriaeth ni yw bod rhaid cyflawni'r dasg ymarferol (60% o'r marc cyfan) yn y gweithle ac na ellir efelychu hynny yn ein canolfan hyfforddi | Mae hyn yn gywir gan nad oes efelychiad yn cael ei ganiatáu. |
| **BSE** | Page 8 of the Assessment Pack states that only the largest job undertaken will contribute to the overall grade. What if this job does not cover all 4 assessment tasks and the MAC, and the employer does not undertake any such sized jobs? Can we include anything that an employer doesn't do as a simulation in the centre workshops? | There is no requirement for the largest job to cover all the 4 tasks, the assessment task covering the most criteria will be used for the grade. All the requirements for the onsite tasks/assessments must be met in the workplace. If they have concerns, they need to discuss the overall requirements with the employer to ensure they can meet them, as there is no simulation is permitted for these qualifications. | Mae Tudalen 8 y Pecyn Asesu yn nodi mai dim ond y swydd fwyaf a gyflawnir fydd yn cyfrannu at y radd gyffredinol. Beth os nad yw'r swydd hon yn cwmpasu pob un o'r 4 tasg asesu a'r MAC, ac nad yw'r cyflogwr yn ymgymryd ag unrhyw swyddi o'r fath? Allwn ni gynnwys unrhyw beth nad yw cyflogwr yn ei wneud fel efelychiad yng ngweithdai'r ganolfan? | Nid oes angen i'r swydd fwyaf ymdrin â'r 4 tasg – y dasg asesu sy'n cynnwys y rhan fwyaf o'r meini prawf fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y radd. Rhaid bodloni'r holl ofynion ar gyfer y tasgau/asesiadau ar y safle yn y gweithle. Os oes ganddynt bryderon, mae angen iddynt drafod y gofynion cyffredinol gyda'r cyflogwr i sicrhau eu bod yn gallu eu bodloni, gan nad oes unrhyw efelychiad yn cael ei ganiatáu ar gyfer y cymwysterau hyn. |
| **BSE** | Does the Level 3 qualification include a recognised unvented hot water G3 regulations qualification that would be recognised by OFTEC etc? | The unvented elements should be recognised by competent persons schemes. | A yw'r cymhwyster Lefel 3 yn cynnwys cymhwyster cydnabyddedig G3 mewn systemau dŵr poeth heb eu hawyru a fyddai'n cael ei gydnabod gan OFTEC ac ati? | Dylai'r elfennau heb eu hawyru gael eu cydnabod gan gynlluniau personau cymwys. |
| **BSE** | In some Level 3 units they contain a core knowledge and install sections. For the install sections, do learners have to show practical competency in addition to the formal onsite practical tasks or just understand the theory? | The performance requirements are covered via the on-site practical assessment. | Mewn rhai unedau Lefel 3, maent yn cynnwys gwybodaeth graidd ac yn gosod adrannau. Ar gyfer yr adrannau gosod, a oes rhaid i ddysgwyr ddangos cymhwysedd ymarferol yn ogystal â chwblhau tasgau ymarferol ffurfiol ar y safle, neu a fyddai cael dealltwriaeth o'r theori yn unig yn ddigon? | Ymdrinnir â'r gofynion perfformiad drwy'r asesiad ymarferol ar y safle. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Delivery** | If the Core units are completed as City & Guilds, would we have to register learners with both Awarding Bodies? | Learners must be registered with the respective Awarding Body offering the qualification, for example EAL for Heating & Ventilation, Plumbing, Electrical (at Level 3), and City & Guilds for the Core. | Os yw'r unedau Craidd yn cael eu cwblhau fel City & Guilds, a fyddai'n rhaid i ni gofrestru dysgwyr gyda'r ddau Corff Dyfarnu? | Rhaid i ddysgwyr fod wedi cofrestru â'r Corff Dyfarnu perthnasol sy'n cynnig y cymhwyster, er enghraifft EAL ar gyfer Gwresogi ac Awyru, Plymio, Trydanol (Lefel 3), a City & Guilds ar gyfer y Craidd. |
| **Delivery** | Which Awarding Body will be responsible for which qualification? | City & Guilds will be responsible for the Foundation qualification. City & Guilds will also be responsible for the Progression and Level 3 Apprenticeship qualifications for the Construction trades. EAL will be responsible for the Progression and Level 3 Apprenticeship qualification for the Building Services Engineering trades. | Pa Gorff Dyfarnu fydd yn gyfrifol am ba gymhwyster? | City & Guilds fydd yn gyfrifol am y cymhwyster Sylfaen. Hefyd, bydd City & Guilds yn gyfrifol am y cymwysterau Dilyniant a Phrentisiaethau Lefel 3 ar gyfer y crefftau Adeiladu. Bydd EAL yn gyfrifol am y cymhwyster Dilyniant a Phrentisiaeth Lefel 3 ar gyfer y crefftau Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu. |
| **Delivery** | Do current centres of City & Guilds or EAL need to seek approval to deliver the new qualifications? | Yes. These are new qualifications and any centres with approval to offer the current qualifications need to submit an application to offer the new suite. | Oes angen i ganolfannau presennol City & Guilds neu EAL ofyn am gymeradwyaeth i ddarparu'r cymwysterau newydd? | Oes. Mae'r rhain yn gymwysterau newydd ac mae angen i unrhyw ganolfannau sydd â chymeradwyaeth i gynnig y cymwysterau presennol gyflwyno cais i allu cynnig y gyfres newydd. |
| **Delivery** | Why isn't an automatic approval granted for Centres currently registered on similar qualifications? | These are a new suite of qualifications and in order to ensure the requirements for them are in place in centres, applications for approval must be submitted. | Pam nad oes cymeradwyaeth awtomatig yn cael ei rhoi ar gyfer Canolfannau sydd wedi cofrestru ar gymwysterau tebyg yn barod? | Cyfres newydd o gymwysterau yw'r rhain ac er mwyn sicrhau bod y gofynion ar waith mewn canolfannau, rhaid cyflwyno ceisiadau am gymeradwyaeth. |
| **Delivery** | If we want to deliver these qualifications, what application form do we need to complete and submit to gain approval? | The application form can be found on the Skills for Wales website under the 'Become a Centre' tab here: https://www.skillsforwales.wales/become-a-centre<br><br>There is one form to be completed for both Awarding Bodies and for all qualifications - centres do not need to complete a separate form for each Awarding Body. | Os ydym am ddarparu'r cymwysterau hyn, pa ffurflen gais y mae angen i ni ei llenwi a'i chyflwyno er mwyn cael cymeradwyaeth? | Mae'r ffurflen gais ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru dan y tab 'Dod yn Ganolfan' yma: https://www.skillsforwales.wales/cy/dod-yn-ganolfan<br><br>Mae un ffurflen i'w llenwi ar gyfer y ddau Corff Dyfarnu ac ar gyfer pob cymhwyster – nid oes angen i ganolfannau lenwi ffurflen ar wahân ar gyfer pob Corff Dyfarnu. |
| **Delivery** | Is there a cost to the Centre for approval? | No, centres will not be charged to become a centre for these qualifications. Nor will qualification approval fees apply. | A oes cost i'r Ganolfan am gymeradwyaeth? | Na, ni chodir tâl ar ganolfannau i ddod yn ganolfan ar gyfer y cymwysterau hyn. Ni chodir ffioedd cymeradwyo cymwysterau ychwaith. |
| **Delivery** | When seeking approval would a centre need to be approved for all the subject areas in the qualification or will a centre be able to choose from the optional units? | Qualification approval is granted for the full qualification and not for the optional units only. | Wrth geisio cymeradwyaeth, a fyddai angen i ganolfan gael ei chymeradwyo ar gyfer holl feysydd pwnc y cymhwyster neu a fydd canolfan yn gallu dewis o'r unedau dewisol? | Rhoddir cymeradwyaeth cymhwyster ar gyfer y cymhwyster llawn, nid ar gyfer yr unedau dewisol yn unig. |
| **Delivery** | How long will Direct Claim Status be restricted? | Direct Claims Status will be restricted for a minimum of 2 years. This will not prevent centres from claiming certificates when | Am ba hyd y cyfyngir ar Statws Hawliadau Uniongyrchol? | Bydd Statws Hawliadau Uniongyrchol yn cael ei gyfyngu am o leiaf 2 flynedd. Ni fydd hyn yn atal canolfannau rhag hawlio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | candidates complete their qualification. An EQA will sample the candidate's work and recommend whether the certificate can be claimed. | | tystysgrifau pan fydd ymgeiswyr yn cwblhau eu cymhwyster. Bydd Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn samplu gwaith yr ymgeisydd ac yn argymell a oes modd hawlio'r dystysgrif. |
| **Delivery** | Will there be a minimum spend requirement? | The minimum spend threshold will not apply to centres which have approval for these new qualifications. | A fydd gofyniad isafswm gwariant? | Ni fydd y trothwy isafswm gwariant yn berthnasol i ganolfannau sydd wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y cymwysterau newydd hyn. |
| **Delivery** | Will the Consortium be looking at contracting associate / consultant EQA's | City & Guilds EQA roles will be advertised here:<br>https://careers.cityandguildsgroup.com/associate-vacancies<br>EAL's EQA roles will be advertised here:<br>https://eal.org.uk/about-eal/vacancies | A fydd y Consortiwm yn ystyried contractio swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol / cyswllt ymgynghorol? | Bydd swyddi Sicrhau Ansawdd Allanol City & Guilds yn cael eu hysbysebu yma:<br>https://careers.cityandguildsgroup.com/associate-vacancies<br>Bydd swyddi Sicrhau Ansawdd Allanol EAL yn cael eu hysbysebu yma:<br>https://eal.org.uk/about-eal/vacancies |
| **Delivery** | What is going to be the role of the on-site assessor? | There will be changes in the way assessors carry out their roles in line with the changes in assessment methods. Please refer to the resource guide and consider the stages to delivery as an overview of requirements. | Beth fydd rôl yr asesydd ar y safle? | Bydd newidiadau yn y ffordd y mae aseswyr yn cyflawni eu rolau yn unol â'r newidiadau mewn dulliau asesu. Cyfeiriwch at y canllaw adnoddau ac ystyriwch y camau cyflawni fel trosolwg o'r gofynion. |
| **Delivery** | Will there be a final online exam covering all topics like GOLA did? | There will be a specific online multiple-choice examination for each trade area in the final year of the apprenticeship. | A fydd arholiad ar-lein terfynol yn ymdrin â phob pwnc fel wnaeth GOLA? | Bydd archwiliad aml-ddewis penodol ar-lein ar gyfer pob maes crefft ym mlwyddyn olaf y brentisiaeth. |
| **Delivery** | Will we have 2 EQAs, one for EAL and one for City & Guilds? | If centres have approval for qualifications offered by both Awarding Bodies, then it is likely there will be 2 separate EQAs | A fydd gennym ni 2 swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol, un ar gyfer EAL ac un ar gyfer City & Guilds? | Os bydd canolfannau'n cael cymeradwyaeth ar gyfer cymwysterau a gynigir gan y ddau corff dyfarnu, mae'n debygol y bydd dau Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol ar wahân. |
| **Delivery** | Step 2 of the provider/employer delivery guide appears to entail a lot of coordination hours for the Centres, has this been considered? | Coordination between employer and training provider will take place to identify the activities that have to be carried out in line with the OCS and the work-based project. By working collaboratively together will help enhance the apprentice journey and we have no doubt this is already occurring within many training providers. | Mae'n ymddangos bod cam 2 y canllaw i ddarparwyr/cyflogwyr yn golygu llawer o oriau cydlynu ar gyfer y Canolfannau, a yw hyn wedi cael ei ystyried? | Bydd y cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant yn cydweithio i nodi'r gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni yn unol â'r Datganiadau Cymhwysedd Galwedigaethol a'r prosiect seiliedig ar waith. Drwy gydweithio, bydd hyn yn helpu i wella taith y prentis ac rydym yn siŵr bod hyn eisoes yn digwydd gyda llawer o ddarparwyr hyfforddiant. |
| **Delivery** | As employer competence pathways and projects become an integral part of the assessment strategy, are there plans to embed a standard evidence profile of the employer evidence | The Employer confirmation guides are live and on the Skills for Wales website located within the relevant Level 3 qualification webpage which can be accessed on the Skills for Wales website under the 'Centre/Qualification documents' tab for each Level 3 qualification. | Wrth i lwybrau a phrosiectau cymhwysedd cyflogwyr ddod yn rhan annatod o'r strategaeth asesu, a oes cynlluniau i sefydlu proffil tystiolaeth safonol o gyfleoedd tystiolaeth y | Mae'r canllawiau cadarnhad y cyflogwr ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y tab 'Dogfennau'r Canolfannau/Cymwysterau' ar gyfer pob cymhwyster Lefel 3. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | opportunities as a minimum requirement prior to partnering with the site? | | cyflogwr fel gofyniad sylfaenol cyn ffurfio partneriaeth â'r safle? | |
| **Delivery** | How many times can a learner re-take an assessment? | There is no limit on how many times a learner can take an assessment, however it is best practice to allow for re-training time before allowing them to re-take an assessment. | Sawl gwaith y gall dysgwr ail-wneud asesiad? | Does dim cyfyngiad ar sawl gwaith y gall dysgwr wneud asesiad, fodd bynnag, yr arfer gorau yw caniatáu amser iddynt allu ail-hyfforddi cyn ail-sefyll asesiad. |
| **Delivery** | Can you provide a link for Hodder education books? | https://www.hoddereducation.co.uk/subjects/construction/products/vocational-14/foundation-in-construction-and-building-services-e | Allwch chi ddarparu dolen ar gyfer llyfrau addysg Hodder? | https://www.hoddereducation.co.uk/subjects/construction/products/vocational-14/foundation-in-construction-and-building-services-e |
| **Funding** | What funded Level 1 qualifications will remain available? | Qualifications Wales will continue to designate for funding Level 1 qualifications which are considered a broad introduction to Construction and/or Building Services Engineering such as the Level 1 Construction Skills qualifications. Any Awarding Body is eligible to submit a Level 1 qualification for designation. | Pa gymwysterau Lefel 1 a ariennir fydd ar gael o hyd? | Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i ddynodi ar gyfer cyllid ar gyfer cymwysterau Lefel 1 sy'n cael eu hystyried yn gyflwyniad eang i Adeiladu a/neu Beirianneg Gwasanaethau Adeiladu fel cymwysterau Sgiliau Adeiladu Lefel 1. Mae unrhyw Gorff Dyfarnu yn gymwys i gyflwyno cymhwyster Lefel 1 i'w ddynodi. |
| **Funding** | Where do the negotiations for funding take place now they are not lead by BACH | The negotiations over funding have moved from BACH to the Curriculum and Quality Group, which is made up of representatives from the network of Vice/Deputy Principals. | Ble mae'r trafodaethau am gyllid yn digwydd gan nad ydyn nhw nawr yn cael eu harwain gan BACH? | Mae'r trafodaethau ynghylch cyllid wedi symud o BACH i'r Grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r rhwydwaith o Is-Benaethiaid/Dirprwy Benaethiaid. |
| **Employer** | Will there be an employer handbook published? | Employer confirmation guides are live and on the Skills for Wales website located within the relevant Level 3 qualification webpage which can be accessed on the Skills for Wales website under the 'Centre/Qualification documents' tab for each Level 3 qualification. | A fydd llawlyfr i gyflogwyr yn cael ei gyhoeddi? | Mae'r canllawiau cadarnhad cyflogwr yn fyw ac ar gael ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y dudalen cymhwyster Lefel 3 perthnasol y gellir mynd ati ar wefan Sgiliau i Gymru o dan y tab 'Dogfennau'r Canolfannau/Cymwysterau' ar gyfer pob cymhwyster Lefel 3. |
| **Employer** | If the employer can only provide part of the assessments how would this be dealt with? | The Employer Confirmation Guide allows for evidence to be obtained and achieved with up to four employers. Employer vetting is critical to ensure that the employers can support the apprentice with access to the range of works required. | Os mai dim ond rhan o'r asesiadau y gall y cyflogwr ei darparu, sut mae mynd i'r afael â hyn? | Mae'r Canllaw Cadarnhau Cyflogwyr yn caniatáu i dystiolaeth gael ei chasglu a'i chyflawni gan hyd at bedwar cyflogwr. Mae cynnal archwiliad ar addasrwydd cyflogwyr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyflogwyr yn gallu rhoi mynediad i'r prentis at yr ystod o waith sydd ei angen. |
| **Employer** | Which employers have you been engaging with across Wales and does this include small employers? | We have and are still engaging with employers. Some of these are engaged with directly, and some are engaged through networks that have kindly been made available to us via organisations such as FMB/NFB/FSB/CITB. We send over 160 emails per month to keep employers up to date. We currently hold 2 employer focus group meetings every 6 weeks, and they include Micro/SME and large employers. | Pa gyflogwyr ydych chi wedi bod yn ymgysylltu â nhw ledled Cymru ac ydy hyn yn cynnwys cyflogwyr bach? | Rydym wedi ymgysylltu â chyflogwyr ac yn parhau i wneud hynny. Mae rhai ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â nhw, ac mae rhai'n ymwneud â rhwydweithiau sydd ar gael yn garedig i ni drwy sefydliadau fel FMB/NFB/FSB/CITB. Rydym yn anfon dros 160 o negeseuon e-bost bob mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflogwyr. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal dau gyfarfod grŵp |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ffocws cyflogwyr bob 6 wythnos ac maent yn cynnwys cyflogwyr busnesau micro/bach a chanolig yn ogystal â chyflogwyr mawr. |
| **Employer** | Are any providers concerned that the new quals are not fit for purpose? | The Consortium have held various webinars, meetings with employer groups and held a variety of focus groups on the development of the qualifications with employers and providers. Over this period of consultation there have been many constructive discussions on implementing the new qualifications, including the challenges that change brings. Overall, the feedback we have had from employers and providers has been positive. | A oes unrhyw ddarparwyr yn pryderu nad yw'r cymwysterau newydd yn addas i'r diben? | Mae'r Consortiwm wedi cynnal amrywiol weminarau, cyfarfodydd gyda grwpiau cyflogwyr ac wedi cynnal amrywiaeth o grwpiau ffocws ar ddatblygu'r cymwysterau gyda chyflogwyr a darparwyr. Yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, cafwyd llawer o drafodaethau adeiladol ynghylch gweithredu'r cymwysterau newydd, gan gynnwys yr heriau a ddaw yn sgil newid. Ar y cyfan, mae'r adborth a gawsom gan gyflogwyr a darparwyr wedi bod yn gadarnhaol. |
| **Employer** | When an employer approaches a centre, will the centres have to direct them to the Skills for Wales site to complete the application for their apprentice? Or will centres use their existing enrolment and registration processes? | We do not envisage any changes and therefore centres will still be able to use their existing enrolment and registration processes. | Pan fydd cyflogwr yn cysylltu â chanolfan, a fydd yn rhaid i'r canolfannau eu cyfeirio at safle Sgiliau i Gymru i gwblhau'r cais ar gyfer eu prentis? Neu a fydd canolfannau'n defnyddio eu prosesau cofrestru presennol? | Nid ydym yn rhagweld unrhyw newidiadau ac felly bydd canolfannau'n dal i allu defnyddio eu prosesau cofrestru presennol. |
| **Employer** | Which employers were consulted in the North Wales area regarding the new qualification? | Numerous micro, small, medium, and large employers have been consulted with across Wales, including the involvement of employers via employer associations and forums. The documentation and videos made available by Qualifications Wales will help give you an insight into the engagement that took place for the sector review. https://www.qualificationswales.org/english/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/construction-and-the-built-environment/ | Pa gyflogwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn ardal Gogledd Cymru ynghylch y cymhwyster newydd? | Ymgynghorwyd â nifer o gyflogwyr micro, bach, canolig a mawr ledled Cymru, gan gynnwys cynnwys cyflogwyr drwy gymdeithasau cyflogwyr a fforymau. Bydd y dogfennau a'r fideos sydd ar gael gan Cymwysterau Cymru yn rhoi cipolwg i chi ar y gwaith o ymgysylltu a ddigwyddodd ar gyfer yr adolygiad sector. https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/cymwysterau-galwedigaethol/adolygiadau-sector/adeiladu-ar-amgylchedd-adeiledig/ |

Every effort has been made to ensure that the information contained in this publication is true and correct at the time of going to press. However, City & Guilds/EAL's products and services are subject to continuous development and improvement and the right is reserved to change products and services from time to time. City & Guilds/EAL cannot accept liability for loss or damage arising from the use of information in this publication.

@2022 The City & Guilds of London Institute. All rights reserved. City & Guilds is a trademark of the City & Guilds of London Institute, a charity established to promote education and training registered in England & Wales (312832) and Scotland (C03 9576).

EAL (Excellence, Achievement & Learning Limited)

Registered in England and Wales number 02700780

Registered office: EAL, Unit 2, The Orient Centre, Greycaine Road, Watford, Herts, WD24 7GP